



# Rhianna Lewis

Cyflwyniad i Senedd Ieuenctid y DU  
aelod dros Flaenau Gwent

**Mae Rhianna Lewis yn 16 oed ac yn dod o Dredegar ym Mlaenau Gwent. Ymunodd Rhianna â Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent yn ôl ym mis Chwefror 2022, ac mae wedi cymryd lle Charlotte Clark fel aelod Senedd Ieuenctid Blaenau Gwent yn dilyn diwedd ei thymor. Ar y pwynt hwn cyflwynodd Rhianna ei hun ar gyfer y rôl a chafodd ei hethol gan y grŵp. Ers i Rhianna gael ei hethol mae hi wedi mynychu ei chyfnod sefydlu, wedi cyflwyno grwpiau ffocws ar les ac wedi mynychu cynhadledd UKYP eleni yn Hull.**

## Cynhadledd Flynyddol

Dros y penwythnos cyfarfu mwy na 200 o Aelodau Senedd Ieuenctid o bob rhan o'r wlad yn Hull ar gyfer eu Cynhadledd Flynyddol. Yn ystod y digwyddiad, bu'r aelodau'n trafod polisiau ac ymgyrchoedd newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r gynhadledd genedlaethol tridiau, sy'n cael ei threfnu gan Gyngor Ieuenctid Prydain, yn rhan o ymdrechion yr elusen i sicrhau newid cymdeithasol trwy gynrychiolaeth ac ymgyrchu ystyrlon.

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Senedd Ieuenctid y DU yn bersonol am y tro cyntaf ers 2019 ym Mhrifysgol Hull. Roedd y digwyddiad yn gyfle i bobl ifanc drafod heb ddim pleidiau gwleidyddol neu wrthblaid wrthwynebol, ond â phleidlais annibynnol a phwyslais ar berswâd,

dadleuon ymchwiliedig. Yn ystod y digwyddiad, clywodd pobl ifanc gan Lindsey Hoyle AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, Nigel Huddleston AS, Gweinidog Chwaraeon, Twristiaeth, Treftadaeth a Chymdeithas Sifil, Fforwm Ieuenctid Banc Lloegr a Chynulliad Rhanbarthol Hinsawdd Ieuenctid.

Cafodd Rhianna gyfle i gyflwyno ei chynnig ar Gydraddoldeb yn ystod y ddatl fawr. Siaradodd Rhianna yn angerddol nid yn unig yn cynrychioli Blaenau Gwent ond hefyd yn cynrychioli Pobl Ifanc ar draws y DU. Cafodd y cynnig hwn ei drafod ymhlith llawer o rai eraill yr oedd Pobl Ifanc wedi'u cynnig. Pasiwyd cynnig Rhianna ynghylch cydraddoldeb ac o ganlyniad bydd yn rhan o'r maniffesto.

Ar y dydd Sadwrn yn dilyn y Ddadl Fawr cafodd y Bobl Ifanc gyfle i ymlacio dros swper a pharti. Cafodd Tîm Cymru amser gwych.

Parhaodd y Ddadl Fawr ddydd Sul cyn i Dîm Cymru fynd adref, ond nid dyma ddiwedd y daith, felly gwylwch y gofod hwn am fwy o waith Rhianna fel aelod Senedd Ieuenctid y DU.

